

CYMRAEG



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Siarter Iaith: Canllaw cychwynnol i ysgolion



Cynnwys

Cyd-destun	3
Gwaith hyd yma	4
Camau nesaf	5
Cefnogaeth ychwanegol a chanllawiau	7
Atodiad: Deilliannau ac amcanion	8

Cyd-destun

Cymraeg 2050

Nod Llywodraeth Cymru yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hwn yn nod tymor hir, ac mae gan y system addysg gyfraniad allweddol i'w wneud er mwyn ei wireddu.

Er mwyn cyflawni'r nod, bydd angen datblygu'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn gallu datblygu'i sgiliau iaith Gymraeg i'w defnyddio'n gymdeithasol ac mewn gwaith yn y dyfodol.

Un o'r nodau allweddol o fewn strategaeth Cymraeg 2050 yw sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

Noda'r strategaeth bod angen cynllunio darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd nid yn unig yn rhoi'r cyfle iddynt ddefnyddio neu ymarfer y Gymraeg, ond sy'n eu trwytho mewn agweddau cadarnhaol o safbwynt yr iaith, a fydd yn golygu eu bod yn penderfynu ei defnyddio. Gall hynny dalu ar ei ganfed yn y tymor hir, gan eu helpu i weld nad yw'n rhywbeth sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn unig, a bod byd cymdeithasol a diwylliannol cyfoethog yn gysylltiedig â hi.

Cynllun gweithredu y Gymraeg mewn addysg 2017–21

Cyhoeddwyd *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21* er mwyn tynnu llinynnau perthnasol *Cymraeg 2050* ac *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl* ynghyd.

Yng nghyd-destun y cwricwlwm newydd mae ymrwymiad i ddatblygu dulliau trawsnewidiol tuag at ddysgu, addysgu ac asesu'r Gymraeg, gyda'r bwriad o sicrhau cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus o fewn y system addysg statudol. Bydd hyn yn sicrhau, yn y dyfodol, bod pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol.

Yn ogystal, bydd gwreiddio ac ehangu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn rhan greiddiol o'r meysydd dysgu a phrofiad o fewn y cwricwlwm newydd. Yn *Dyfodol Llwyddiannus*, pwysleisia'r Athro Donaldson bwysigrwydd profiadau addysgol fel rhan annatod o'r cwricwlwm, i ehangu gorwelion dysgwyr, tanio eu dychymyg a hybu mwynhad mewn dysgu.

Gwaith hyd yma

Mae cefnogaeth wedi ei roi dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn hyrwyddo a chynyddu defnydd dysgwyr o'r Gymraeg yn yr ysgol ac mewn cyd-destunau cymdeithasol. Mae hyn wedi ei wneud drwy'r Siarter Iaith, a ddatblygwyd gan Gyngor Gwynedd, a phrosiectau amrywiol eraill i gefnogi ysgolion uwchradd, mewn partneriaeth â'r consortia rhanbarthol a'r Urdd. Mae hyn yn cynnwys:

- gweithredu'r Siarter Iaith Gymraeg ym mhob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghymru fel ffordd o gynllunio'n strategol i ddatblygu defnydd dysgwyr o'r iaith
- gweithredu Cymraeg Campus o fewn nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg
- creu pecyn cymorth ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i'w ddefnyddio i ymgorffori arferion pobl ifanc o ran defnydd iaith a chefnogi datblygiad prosiectau lefel ysgol i annog defnydd iaith ymhlith dysgwyr
- cefnogaeth i ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddatblygu gweithgareddau i annog defnydd anffurfiol dysgwyr o'r Gymraeg
- cefnogaeth i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i ddarparu cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r iaith a chyfleoedd dysgu Cymraeg dwys drwy gynllun Cymraeg bob dydd yr Urdd.

Camau nesaf

Un fframwaith genedlaethol

Y nod yw sefydlu arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith trwy gynllunio bwriadus o fewn ysgolion a hybu defnydd anffurfiol ohoni ymhlith dysgwyr y tu fewn a thu allan i'r ysgol, gan ddod â phartneriaid eraill ynghyd i weithredu. Bydd hwyluso defnydd o'r Gymraeg, ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau ehangach, gyda dilyniant ieithyddol wedi'i gynllunio ar hyd pob cyfnod o addysg, yn cynnig cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ddod yn gwbl ddwyieithog.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cefnogi datblygiad y Gymraeg ar draws ein holl ysgolion, ac er mwyn cyd-fynd â datblygiad y cwricwlwm newydd, rydym wedi creu un fframwaith genedlaethol, gan adeiladu ar y cynlluniau presennol yn cynnwys y Siarter Iaith, Cymraeg Campus a'r prosiect cefnogi arferion iaith. Bydd pob ysgol, waeth beth fo'i chyd-destun ieithyddol yn gweithio o fewn yr un fframwaith er mwyn cyflawni'r nod o sicrhau bod dysgwyr yn:

- hyderus i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg
- meithrin agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith
- cynyddu defnydd o'r iaith y tu fewn a thu allan i'r ysgol.

Bydd gweithredu'r fframwaith hon yn rhan greiddiol o gyflwyno cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyfoethogi eu profiadau dysgu ac yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r cwricwlwm newydd.

Bydd y fframwaith hon yn cynnig arweiniad i ysgolion sydd ddim wedi bod yn rhan o'r daith hyd yma drwy gynnig man cychwyn ac amcanion clir. Ar yr un pryd bydd y fframwaith hon yn cynnig arweiniad a chyfleoedd i ysgolion sydd eisoes yn rhan o'r rhaglenni i ddatblygu ymhellach drwy gynyddu statws ac adeiladu ar y gwaith da sydd wedi ei wneud, gan barhau â'r brwdfrydedd mae'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiol wedi eu creu.

Deilliannau ac amcanion

Mae pump deilliant wedi eu datblygu ar gyfer gweithredu fframwaith y Siarter Iaith. Maent wedi eu seilio ar y Siarter Iaith, Cymraeg Campus a'r prosiect cefnogi arferion iaith gan anelu i sicrhau bod y Gymraeg a defnydd anffurfiol ohoni wrth wraidd ethos a datblygiad strategol ysgolion o bob math yng Nghymru. Mae'n bwysig nodi y bydd hyblygrwydd ynghlwm â'r deilliannau o fewn y fframwaith. Ni fydd disgwyl i bob ysgol ymhél â phob un o'r deilliannau yn syth. Gall ysgolion ganolbwyntio ar ddeilliannau ac amcanion yn unol â sefyllfa'r ysgol a ble mae'r ysgol ar daith y Siarter Iaith. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion adeiladu ar y gwaith dros gyfnod o amser. Bydd rôl cefnogol y consortia rhanbarthol wrth adnabod a phennu blaenoriaethau gydag ysgolion unigol yn allweddol.

Amcanion a chynlluniau gweithredu

Mae cyfres o amcanion (gweler yr Atodiad am fanylion pellach) wedi eu datblygu i gydfynd â'r deilliannau gall fod yn addas i ysgolion o bob math yng Nghymru. Gall pob ysgol lunio ei gynllun gweithredu ei hun er mwyn cwrdd â'r deilliannau, yn seiliedig ar gyd-destun ieithyddol, sefyllfa, a gweithgarwch presennol yr ysgol.

Anogir ysgolion i ddatblygu cynlluniau heriol ond cyraeddadwy gyda chefnogaeth gan swyddogion y consortia rhanbarthol. Bydd pob ysgol yn dilyn ei llwybr ei hun er mwyn cyflawni'r deilliannau a chwrdd â'r amcanion, yn unol â sefyllfa bresennol yr ysgol. Bydd strwythur monitro yn cael ei roi mewn lle er mwyn mesur cynnydd a chynorthwyo ysgolion i ddatblygu, rhannu arfer dda ac adeiladu ar gynnydd yn barhaus. Gall y cynlluniau gweithredu ddod yn rhan greiddiol o gynlluniau datblygu cyffredinol ysgolion.

Gall ysgolion gynnwys holl gymuned yr ysgol wrth weithredu'r fframwaith – y dysgwyr, yr holl weithlu, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach.

Gall ysgolion hefyd wneud pob ymdrech i gydweithio gydag ysgolion eraill o fewn eu clwstwr, yn ogystal ag ymdrechion penodol i weithio gyda'u hysgolion uwchradd perthnasol er mwyn sicrhau dilyniant a llwybr di-dor o gefnogaeth i ddysgwyr.

Holiadur ar-lein

Mae'r holiadur Gwe Iaith, sef cyfres o gwestiynau i ddysgwyr ynglŷn â'u defnydd iaith mewn sefyllfaoedd gwahanol, a'u hagweddau tuag at yr iaith, yn rhan bwysig o'r gwaith mewn nifer o ysgolion ar hyn o bryd. Gwneir darlenniadau o'r holiadur ar ddechrau a diwedd cyfnod gweithredu yn arferol. Defnyddir canfyddiadau'r holiadur fel un o seiliau cynlluniau gweithredu unigol ysgolion. Bydd yr holiadur ar-lein ar gael ar Hwb i bob ysgol yng Nghymru er mwyn gallu ei ddefnyddio fel un o'r dulliau o fesur cynnydd o fewn y gwaith hwn.

Cefnogaeth ychwanegol a chanllawiau

Bydd swyddogion o'r pedwar consortia rhanbarthol yn gyfrifol am ddarparu cyngor a chefnogaeth rheolaidd i ysgolion wrth iddynt weithredu'r fframwaith. Bydd swyddogion y consortia rhanbarthol hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo a monitro cynnydd ysgolion fel rhan o'r broses cefnogi.

Bydd canllawiau pellach yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi 2019 a fydd yn cynnig cefnogaeth ymarferol i ysgolion er mwyn gweithredu'r fframwaith hon. Bydd hyn yn cynnwys enghreifftiau o arfer dda, astudiaethau achos, templedi cynlluniau gweithredu, gwybodaeth am yr holiadur ar-lein ac adnoddau cefnogi i ysgolion.

Atodiad: Deilliannau ac amcanion

1. Arweinyddiaeth yn cael ei ddangos ar lefel ysgol gyfan.

- Uwch dim arwain yn dangos ymrwymiad clir i ddatblygu'r Gymraeg a Chymreictod ar lefel ysgol gyfan.
- Holl weithlu'r ysgol yn deall nod ac amcanion y Siarter Iaith a'u rôl i gefnogi'r gweithredu.
- Holl ddysgwyr yr ysgol yn deall pwrpas a phwysigrwydd y Siarter Iaith a'u rôl i gefnogi'r gweithredu.
- Rhieni/gofalwyr a chymuned ehangach yr ysgol yn deall pwrpas a phwysigrwydd y Siarter Iaith a'u rôl i gefnogi'r gweithredu.
- Llywodraethwyr yn sicrhau bod y Siarter Iaith yn ffocws ganolog o fewn cynlluniau'r ysgol ac yn cefnogi'r gweithredu.

2. Dysgwyr yn cymryd perchnogaeth o'r Gymraeg ac yn deall ei pherthnasedd i fywyd bob dydd.

- Dysgwyr yn annog a chefnogi ei gilydd i gymryd cyfrifoldeb dros yr iaith.
- Gweithlu'r ysgol yn gallu trin a thrafod yr iaith gyda dysgwyr.
- Cyfarwyddyd yn cael ei roi i'r cyngor ysgol neu'r criw sy'n arwain y Siarter Iaith ar sut i drin a thrafod yr iaith a rhoi arweiniad i'w cyd-ddysgwyr.
- Dysgwyr yn cael cyfle i drafod yr iaith a'i pherthnasedd i fywyd bob dydd.

3. Ysgolion yn annog defnydd dysgwyr o'r iaith y tu allan i'r dosbarth ac yn cynnig profiadau Cymraeg a Chymreig ar draws y cwricwlwm.

- Dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol yn yr ysgol.
- Y gweithlu yn sicrhau defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm (ysgolion dwyieithog a chyfrwng Saesneg).
- Gweithgareddau a phrofiadau cyfoethogi yn cael eu cynnig er mwyn datblygu defnydd a mwynhad dysgwyr o'r Gymraeg.
- Gweithlu'r ysgol yn annog defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.
- Dysgwyr/Criw Cymraeg/llysgenhadon iaith Gymraeg yn annog eu cyd-ddysgwyr i ddefnyddio mwy o Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

4. Gweithlu yr ysgol yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd a gyda'r dysgwyr.

- Cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys ymrwymiad clir i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu.
- Gweithlu'r ysgol yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, yn unol â'r safonau proffesiynol.
- Dysgwyr yn cynorthwyo gweithlu ehangach yr ysgol i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg.

5. Gweithio mewn partneriaeth â chymuned ehangach yr ysgol i gefnogi defnydd dysgwyr o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.

- Arweiniad yn cael ei roi i ddysgwyr ynghylch cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith tu hwnt i'r ysgol.
- Arweiniad i rieni/gofalwyr er mwyn eu hannog i gefnogi defnydd iaith eu plant y tu allan i'r ysgol.
- Anogaeth a chefnogaeth i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg drwy dechnoleg a chyfryngau cymdeithasol.
- Holl gymuned yr ysgol a phartneriaid cymunedol yn cynllunio a chydweithio i gynnig gweithgareddau a chyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol.

